PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED

DYDD IAU, 19 MEDI 2024

PRESENNOL Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn rhithwir):
D. Thomas P.T. Warlow

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
Cynghorydd N. Lewis

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)
Mr J. Jones - Cadeirydd Bwrdd Cronfa Bension Dyfed
Mr A. Brown - Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn
M. Owens, Cyfrifydd Cynorthwywr
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 2.00 - 3.30 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod, wrth arfer ei swyddogaethau dewisol, wedi caniatáu i Aelod o'r Cyhoedd (Mr Reed) ofyn y cwestiwn canlynol i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed na fyddai'n cael ei drafod a bod ateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

“Yng ngoleuni’r ffaith fod maniffesto Plaid Cymru a’r arweinyddiaeth yn Sir Gaerfyrddin o blaid datgarboneiddio Cronfa Bensiwn Dyfed ar frys mewn ymateb i’r Datganiad o Argyfwng Hinsawdd, beth sy’n atal Cronfa Bensiwn Dyfed rhag ymrwymo i ddatganiad o ddatgarboneiddio 100% erbyn 2030 fel rheidrwydd moesol a tharged realistig, yn lle’r targed presennol o 2050?"

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

D. Thomas, P. Warlow, E. Williams	Cyffredinol	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed
N. Lewis (yn bresennol yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw fel sylwedydd yn rhinwedd ei swydd fel dirprwy aelod enwebedig o'r Gronfa Bensiwn)	11. – Penderfyniad y Bwrdd Pensiwn mewn perthynas â Grŵp Cwmnïau Bute	Mae'n gweithio yn y Diwydiant Ynni Adnewyddadwy
N. Lewis (yn bresennol yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw fel sylwedydd yn rhinwedd ei swydd fel dirprwy aelod enwebedig o'r Gronfa Bensiwn)	Cyffredinol	Buddiolwr Cronfa Bensiwn Dyfed

3. COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 19 MEHEFIN 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2024 fel cofnod cywir.

4. COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion Cyfarfodydd Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed ar 14 Mai a 24 Gorffennaf 2024 yn cael eu nodi.

5. ADRODDIAD BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau'r Bwrdd Pensiwn, a gyflwynwyd gan Gadeirydd Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd ar 14 Mai a 24 Gorffennaf 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod adroddiadau Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Mai a 24 Gorffennaf 2024 yn cael eu derbyn.

6. MONITRO'R GYLLIDEB A'R SEFYLLFA O RAN ARIAN PAROD AR 30 MEHEFIN 2024

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb a'r Sefyllfa Arian Parod ar 30 Mehefin, 2024 mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.

Mewn perthynas ag elfen Monitro'r Gyllideb yr adroddiad, dywedwyd bod tanwariant o £116k ar ddiwedd mis Mehefin o gymharu â'r gyllideb.

Mewn perthynas â gwariant, rhagwelwyd ar hyn o bryd y byddai tanwariant o £642k. Rhagwelwyd tanwariant o £342k yn y pensiynau taladwy a £300k mewn costau rheoli. Nodwyd hefyd, wrth osod y gyllideb, bod lwfans o 0.5% wedi'i gynnwys ar gyfer y cynnydd yn aelodaeth pensiynwyr, fodd bynnag, roedd y cynnydd gwirioneddol hyd at fis Mehefin ychydig yn is. O ran ffioedd, roedd costau'r chwarter cyntaf ychydig yn is na'r hyn a ragwelwyd wrth bennu'r gyllideb

O ran incwm, rhagwelwyd y byddai hynny'n llai na'r gyllideb o £526k. Rhagwelwyd y byddai cyfraniadau £1.9m yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd, i'w briodoli'n bennaf i fwy o incwm ychwanegol gan gyflogwyr nag a ragwelwyd wrth osod y gyllideb. Yn ogystal, rhagwelwyd y byddai tâl pensiynadwy gweithwyr ychydig yn uwch nag a ragwelwyd wrth bennu'r gyllideb gan arwain at ragweld cyfraniadau ychwanegol. Rhagwelwyd y byddai trosglwyddiadau i mewn yn fwy na'r gyllideb o £500k a rhagwelwyd y byddai incwm buddsoddi £2.9m yn is na'r gyllideb.

Yn gyffredinol, amcangyfrifwyd bod cyfanswm y gwariant yn £133m a chyfanswm yr incwm yn £133.1m a arweiniodd at amrywiad cadarnhaol o £116k yn erbyn y gyllideb.

Mewn perthynas â sefyllfa arian parod y gronfa, nodwyd bod £5.6m o arian parod yn cael ei gadw gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a'r Sefyllfa Arian Parod.

7. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a roddai ddiweddariad ar Weinyddu Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoniad GMP a llif gwaith.

Cyfeiriwyd at y gwaith a'r cymorth sy'n cael eu darparu i Goleg Sir Benfro, Coleg Ceredigion, Coleg Sir Gâr a Heddlu Dyfed Powys i ddefnyddio i-connect, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch y sefyllfa mewn perthynas â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn defnyddio'r cyfleuster. Cadarnhaodd y Rheolwr Pensiynau, oherwydd y cymorth sy'n cael ei roi i'r sefydliadau uchod, a'r adnoddau cyfyngedig, nad oedd y broses o ddefnyddio'r cyfleuster gan y Gwasanaeth Tân wedi dechrau eto. Fodd bynnag, byddai'r cymorth hwnnw'n cael ei ddarparu cyn gynted ag y byddai'r llwyth gwaith

presennol yn caniatáu, ac roedd y sefydliadau a nodir uchod wedi dechrau defnyddio i-connect.

CYTUNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Gweinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.

8. ADRODDIAD TORRI AMODAU

Cafodd y Pwyllgor yr Adroddiad Torri Amodau i'w ystyried mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed a baratowyd yn unol ag Adran 70 Deddf Pensiwn 2004, Côd Ymarfer rhif 14 a Pholisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y rhestr o doriadau a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad a nodwyd na fu unrhyw achosion o dderbyn cyfraniadau'n hwyr gan Gyflogwyr ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau fod y sefyllfa a oedd yn cyfeirio at y toriadau blaenorol gan Burry Port Marina Ltd mewn perthynas â thaliadau i'r Gronfa wedi'i datrys gan weinyddwyr y cwmni fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor ar 27 Mawrth 2024 (cofnod 10)

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.

9. COFRESTRE RISG

Cafodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg, a oedd yn manylu ar yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed, i'w hystyried. Roedd yr adroddiad yn cynnwys asesiad o'r effaith bosibl, tebygolrwydd a graddfa risg ar gyfer pob maes a nodwyd, ynghyd â'r mesurau rheoli a weithredwyd i liniaru'r risgiau a nodwyd.

Roedd y gofrestr i'w hystyried yn canolbwyntio ar y 13 o risgiau Cyllido a Buddsoddiadau (a nodir fel rhifau risg F1-F13 yn y gofrestr) a chadarnhawyd yn dilyn adolygiad o'r gofrestr, na fu unrhyw newidiadau i risgiau unigol ers cymeradwyo'r gofrestr yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2024.

Cyfeiriwyd at Risgiau F3 a F4 a gwnaed sylw ynghylch yr angen i adolygu'r rheiny.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiad y gofrestr risg.

10. CYNLLUN HYFFORDDI 2024-2025

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad i'w ystyried ynghylch y Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2024-2025 a oedd yn manylu ar amserlen cyfarfodydd y pwyllgor, a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer aelodau a swyddogion Cronfa Bensiwn Dyfed.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2024-2025.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

11. PENDERFYNIAD Y BWRDD PENSIWN MEWN PERTHYNAS Â CHWMNÏAU GRWP BUTE

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Bwrdd, yng nghyfarfod Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2024 (gweler y cofnod) wedi ystyried gohebiaeth gan y Cynghorydd A. Lenny yn ymwneud â buddsoddiad Partneriaeth Pensiwn Cymru yng Ngrŵp cwmnïau Bute a'i brosiectau ynni Tywi-Wysg a Thywi-Teifi. Ar ôl ystyried yr ohebiaeth honno, roedd y Bwrdd wedi gwneud yr argymhellion a ganlyn i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed i'w hystyried:

"Mae Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed yn cytuno i ofyn i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed i:

- Archwilio, trafod ac ystyried a oes achos neu gyfle i Gronfa Bensiwn Dyfed neu Bartneriaeth Pensiwn Cymru, ar wahân neu ar y cyd â'i phartneriaid ariannu, gael rhyddhad o unrhyw drefniant ar gyfer ariannu un neu fwy o'r cwmnïau o fewn Grŵp Bute ac archwilio a allai unrhyw ryddhad o'r fath olygu adennill unrhyw swm a roddwyd hyd yma neu unrhyw ran ohono, neu a allai olygu dal arian yn ôl.
- Archwilio a yw Cronfa Bensiwn Dyfed, ac unrhyw un o'i phartneriaid ariannu, yng nghyd-destun unrhyw berthynas gyllido sy'n bodoli, yn gallu ymgysylltu â GGENC/Bute tuag at sicrhau cyfeiriad priodol a hwylus, megis gwerthusiad llawn a phriodol o geblau tanddaearol trwy aredig ar gyfer ceblau.
- Gofyn i'r cwmni cyfreithiol Burgess Salmon LLP a Grŵp Bute egluro a yw Burgess Salmon wedi cynorthwyo un neu fwy o'r cwmnïau o fewn Grŵp Bute ar unrhyw adeg.
- Dechrau trafodaeth gyda phob un o'r partneriaid cyllido a chyda Grŵp Bute ac Ofgem sy'n berthnasol i faterion i'w harchwilio yn unol â'r penderfyniad hwn."

Wrth ystyried yr atgyfeiriad, rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r goblygiadau posibl y gallai dargyfeirio cynnar o fuddsoddiad y Gronfa gyda Grŵp Bute eu cael ar y Gronfa mewn perthynas, er enghraifft, â'i rhwymedigaethau cyfreithiol ac unrhyw golledion ymddiriedol ac ar yr angen i'r goblygiadau hynny fod yn destun ymchwiliad llawn a chael eu hadrodd yn ôl i'r pwyllgor i'w hystyried.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r atgyfeiriad a bod swyddogion yn paratoi ymateb i'r pwyntiau a godwyd ynddo ac yn adrodd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

12. DIWEDDARIAD CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf i'w hystyried o gyfarfod Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Llywodraethu

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

· Gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu Is-gronfeydd
· Gwasanaethau Gweithredwyr
· Buddsoddiadau ac Adrodd
· Cyfathrebu a Hyfforddiant
· Adnoddau, cyllideb a ffïoedd
· Cynllun Hyfforddi

Roedd yr adroddiad yn cynnwys adroddiad y Gweithredwr yn rhoi diweddariad ar y canlynol:
· Diweddariadau'r farchnad
· Diweddariad Busnes – Goruchwylio Trydydd Partïon Ch1 2024
· Gwerthoedd Is-Gronfa Partneriaeth Pensiwn Cymru ar 31 Mawrth 2024
· Cipolwg ar Gronfa Mawrth 2024 – Ecwiti ac Incwm Sefydlog
· Lansiadau a Newidiadau'r Gronfa
· Diweddariad ac Ymgysylltu Corfforaethol Waystone

Hefyd roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb a sylwadau ynghylch perfformiad buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer Ch1 2024 (Ionawr - Mawrth 2024)

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn diweddariad Partneriaeth Pensiwn Cymru ynghylch y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

13. DIWEDDARIAD BUDDSODDI CYFRIFOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - 30 MEHEFIN 2024

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru Buddsoddiadau Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru ar 30 Mehefin 2024 yn manylu ar weithgarwch Buddsoddiadau Cyfrifol diweddar ynghyd â gwybodaeth am yr Is-gronfeydd a ganlyn yr oedd Cronfa Bensiwn Dyfed wedi buddsoddi ynddynt:

- Twf Byd-eang
- Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
- Credyd Byd-eang

Yn ogystal â'r uchod, roedd y diweddariad hefyd yn darparu Crynodeb Stiwardiaeth ynghyd â'r atodiadau perthnasol yn rhifau 1-4 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddaru.

14. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

15. ADRODDIAD YMGYSYLLTU ROBECO 1 IONAWR 2024 - 31 MAWRTH 2024

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn er anfantais i aelodau'r gronfa.

Derbyniodd y Pwyllgor i'w ystyried adroddiad ymgysylltu Robeco ar gyfer y cyfnod adrodd 1 Ionawr 2024 - 31 Mawrth 2024 a oedd yn darparu ystadegau manwl mewn perthynas â gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd ar bortffolio Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystod y chwarter, ynghyd â detholiad o astudiaethau achos o weithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd mewn perthynas â Thrawsnewid Cyfiawn mewn Marchnadoedd Datblygol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad Ymgysylltu Robeco am y cyfnod adrodd 1 Ionawr 2024 - 31 Mawrth 2024.

16. ADOLYGIAD O BERFFORMIAD BENTHYCA GWARANNAU NORTHERN TRUST 2023-24

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn er anfantais i aelodau'r gronfa.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad Adolygiad Perfformiad Benthyca Northern Trust Securities 2023-24 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiad Adolygiad Perfformiad Benthyca Northern Trust Securities ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2023-2024.

17. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 30 MEHEFIN 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn er anfantais i aelodau'r gronfa.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 30 Mehefin 2024. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cefndir y farchnad fyd-eang a materion i'r Pwyllgor eu hystyried.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Annibynnol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

18. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 30 MEHEFIN 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn er anfantais i aelodau'r gronfa.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 30 Mehefin 2024 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau ers i'r gronfa gychwyn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 30 Mehefin 2024. .

19. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 30 MEHEFIN 2024

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn er anfantais i aelodau'r gronfa.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau'r rheolwyr buddsoddi a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oeddent ar 30 Mehefin 2024.

- BlackRock - Adroddiad Chwarterol 30 Mehefin 2024;
- Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch2 2024;
- Partners Group - Adroddiad Chwarterol Ch2 2024;
- Cronfa Dwf Fyd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 30 Mehefin 2024;
- Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 30 Mehefin 2024
- Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru - 30 Mehefin 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiadau'r rheolwyr buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oeddent ar 30 Mehefin 2024.

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf